# Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd
# Canllawiau Rhieni/Dysgwyr CA4

## Beth sy'n digwydd os oes angen i ddysgwyr hunan-ynysu?

DYSG DAWN DYFODOL

#TÎMLLAN

**Beth sy'n digwydd os mae angen i swigen hunan-ynysu?**

**Bydd y canllawiau'n esbonio'r canlynol:**

Beth yw hunan-ynysu?

Yr Amserlen Dysgu Cartref
Beth yw hi?
Pryd fydd yn dechrau?
Sut fydd yn gweithio?

Sesiynau 'Check In'

#TÎMLLAN

**Beth yw hunan-ynysu?**

Os mae angen i ddysgwr hunan-ynysu, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dweud bod angen iddynt aros cartref am gyfnod penodol o amser.

Mae dim ond 4 rheswm pam y bydd angen i ddysgwr hunan-ynysu (cyfnod mewn coch):

Rheswm 1: Maent yn aros am ganlyniadau prawf COVID (2 / 3 diwrnod)

Rheswm 2: Maent wedi profi'n gadarnhaol am COVID (10 diwrnod)

Rheswm 3: Maent wedi bod mewn cyswllt agos â pherson sydd wedi profi'n gadarnhaol (14 diwrnod)

Rheswm 4: Mae aelod o'u swigen wedi profi'n gadarnhaol (14 diwrnod)

#TÎMLLAN

## Sut fydda i'n dysgu tra'n hunan-ynysu cartref?

**Rheswm 1: Dysgwr yn aros am ganlyniadau prawf COVID** (2 / 3 diwrnod)

Parhau gyda thasgau gwaith cartref/annibynnol fel arfer.

**Rheswm 2: Dysgwr wedi profi'n gadarnhaol am COVID** (10 diwrnod)

Bydd gweithgareddau ac adnoddau pynciol ar gael ar Google Classroom. Bydd athrawon yn arwain dysgwyr at y tasgau. Dylai dysgwyr geisio dilyn eu hamserlen arferol er mwyn helpu trefnu'u hamser cartref.

**Rheswm 3: Dysgwr wedi bod mewn cyswllt agos â pherson sydd wedi profi'n gadarnhaol** (14 diwrnod)

Bydd gweithgareddau ac adnoddau pynciol ar gael ar Google Classroom. Bydd athrawon yn arwain dysgwyr at y tasgau. Dylai dysgwyr geisio dilyn eu hamserlen arferol er mwyn helpu trefnu'u hamser cartref.

**Rheswm 4: Aelod o swigen y dysgwr wedi profi'n gadarnhaol** (14 diwrnod)

Dysgwyr yn newid i'r Amserlen Dysgu Cartref

#TÎMLLAN

# Amserlen Dysgu Cartref

## Beth yw hi?

Bydd yr Amserlen Dysgu Cartref yn amserlen wythnosol i ddysgwyr ei ddilyn gartref.

Ni fydd gwersi yn digwydd yr un pryd â'r gwersi yn ôl amserlen yr ysgol felly bydd rhaid i ddysgwyr ei wirio'n ofalus.

Bydd 3 math o wersi

- Gweminar
- Sesiynau 'Check In' Byw
- Astudio'n Annibynnol

#TÎM LLAN

# Amserlen Dysgu Cartref

## Beth yw Gweminar?

Mae Gweminar yn sesiwn sydd wedi'i recordio lle mae'r athro'n cyflwyno gwybodaeth ac yn gosod tasgau i'r dysgwyr eu cwblhau. Gan fod y rhain yn sesiynau sydd wedi'u recordio, gall y dysgwyr eu stopio er mwyn cymryd nodiadau ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd wedi cael eu gosod. Os oes angen, gall y dysgwyr wylio'r gweminar mwy nag unwaith er mwyn cynorthwyo'u dealltwriaeth ymhellach. Bydd athrawon yn arwain y dysgwyr at y sesiynau ar Google Classroom.

## Beth yw Sesiwn 'Check In' Byw?

Bydd dysgwyr yn ymuno â sesiynau byw 'Check In' ar Google Meet a arweinir gan athro. Bydd y sesiwn yn rhyngweithiol yn caniatáu'r athrawon i ofyn cwestiynau i'r dysgwyr, ac i'r dysgwyr ofyn cwestiynau i'r athrawon.

## Beth yw Astudio'n Annibynnol?

Astudio'n Annibynnol yw dysgwyr yn gweithio ar unrhyw dasgau sydd wedi cael eu gosod gan athrawon yn ystod gweminarau neu yn dilyn y sesiwn 'Check In'.

#TÎMLLAN

## Amserlen Dysgu Cartref

Sut fydd yn edrych?

## Enghraifft Cyfnod Allweddol 4

| | CLlun | CMawrth | CMercher | Clau | CGwener |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyddoniaeth | Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Mathemateg |
| | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Cymraeg | Saesneg | Saesneg |
| | Iechyd a Lles / Dyniaethau | Opsiwn A | Opsiwn B | Cymraeg | Bagloriaeth |
| | Opsiwn C | Saesneg | Opsiwn C | Opsiwn B | Opsiwn A |
| **Sesiynau Check in** | | | | | |
| **10:20 – 11:00** | LLES TOL | | | | LLES TOL |
| **11:00 – 11:45** | Gwyddoniaeth | Saesneg | Mathemateg | COL B | COL A |
| **11:45 – 12:30** | | Cymraeg | | | |

#TÎMLLAN

Disgwylir i ddysgwyr weithio ar o leiaf pedwar tasg bob dydd ochr yn ochr â'r bwydlen Iechyd a Lles lle maent yn gallu dewis o sawl gweithgaredd ymarferol.
Bydd pob adran yn darparu tasgau a disgwylir i ddysgwyr eu cwblhau erbyn y dyddiadau cau clir a osodir gan yr adrannau gwahanol.

Darperir rhestr o bynciau yn ôl y colofnau opsiwn gyda'r amserlen fel bod dysgwyr yn gwybod pa bynciau sy'n berthnasol iddyn nhw.

| | CLlun | CMawrth | CMercher | Clau | CGwener |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyddoniaeth | Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Mathemateg |
| | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Cymraeg | Saesneg | Saesneg |
| | Iechyd a Lles / Dyniaethau | Opsiwn A | Opsiwn B | Cymraeg | Bagloriaeth |
| | Opsiwn C | Saesneg | Opsiwn C | Opsiwn B | Opsiwn A |
| **Sesiynau Check in** | | | | | |
| **10:20 – 11:00** | LLES TOL | | | | LLES TOL |
| **11:00 – 11:45** | Gwyddoniaeth | Saesneg | Mathemateg | COL B | COL A |
| **11:45 – 12:30** | | Cymraeg | | | |

#TÎMLLAN

Weithiau mae dau bwnc mewn un bocs, e.e. Iechyd a Lles/Dyniaethau. Mae hyn yn golygu bydd un pwnc yn darparu gwaith ar gyfer yr wythnos gyntaf a'r llall ar gyfer yr ail wythnos.

| | CL | Mawrth | CMercher | Clau | CGwener |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyddon | Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Mathemateg |
| | Mathemate | Gwyddoniaeth | Cymraeg | Saesneg | Saesneg |
| | Iechyd a Lles / Dyniaethau | Opsiwn A | Opsiwn B | Cymraeg | Bagloriaeth |
| | Opsiwn C | Saesneg | Opsiwn C | Opsiwn B | Opsiwn A |
| **Sesiynau Check in** | | | | | |
| **10:20 – 11:00** | LLES TOL | | | | LLES TOL |
| **11:00 – 11:45** | Gwyddoniaeth | Saesneg | Mathemateg | COL B | COL A |
| **11:45 – 12:30** | | Cymraeg | | | |

#TÎMLLAN

Cynhelir sesiwn Lles gyda'r Pennaeth Blwyddyn ar Ddydd Llun a Dydd Gwener o'r ddwy wythnos.

Rhennir y côd dosbarth ar gyfer y cyfarfodydd hyn ar Google Classroom y Flwyddyn ar fore y sesiwn.

| | C | lawrth | CMercher | Clau | CGwener |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwy | Cymraeg | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Mathemateg |
| | Mathe | wyddoniaeth | Cymraeg | Saesneg | Saesneg |
| | Iechyd a Dyniaet | Opsiwn A | Opsiwn B | Cymraeg | Bagloriaeth |
| | Opsiwn | Saesneg | Opsiwn C | Opsiwn B | Opsiwn A |
| **Sesiynau Check in** | | | | | |
| **10:20 – 11:00** | LLES TOL | | | | LLES TOL |
| **11:00 – 11:45** | Gwyddoniaeth | Saesneg | Mathemateg | COL B | COL A |
| **11:45 – 12:30** | | Cymraeg | | | |

#TÎMLLAN

Bydd y sesiynau ‘check in’ academaidd yn gyfle i dderbyn cymorth ychwanegol ac i drafod gwaith gydag arbenigwr pynciol.

Rhennir y Côd Dosbarth ar gyfer y sesiynau hyn ar Classroom y pwnc ar fore’r cyfarfod.

Ni fydd athro penodol eich plentyn yn arwain y sesiynau hyn bob tro.

| | CL | rth | CMercher | Clau | CGwener |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwyddon | eg | Mathemateg | Gwyddoniaeth | Mathemateg |
| | Mathemateg | aeth | Cymraeg | Saesneg | Saesneg |
| | Iechyd a Lles / Dyniaethau | A | Opsiwn B | Cymraeg | Bagloriaeth |
| | Opsiwn C | | Opsiwn C | Opsiwn B | Opsiwn A |
| | | ynau Check in | | | |
| 10:20 – 11:00 | LLES TOL | | | | LLES TOL |
| 11:00 – 11:45 | Gwyddoniaeth | Saesneg | Mathemateg | COL B | COL A |
| 11:45 – 12:30 | | Cymraeg | | | |

#TÎMLLAN

# Amserlen Dysgu Cartref

## Sut fydd yn gweithio?

Bydd yr Amserlen Dysgu Cartref yn dechrau 24 awr ar ôl i swigen blwyddyn ddechrau hunan-ynysu.

Mae hyn yn golygu os yw swigen blwyddyn yn dechrau hunan-ynysu ar Ddydd Mawrth, bydd yr amserlen yn dechrau ar Ddydd Iau yr un wythnos.

Mae enghraifft o'r Amserlen Dysgu Cartref ar gael ar wefan yr ysgol wrth ochr â'r cyflwyniad hyn.

# Protocol Sesiynau ‘Check In’ Byw

Dylai dysgwyr fynychu bob sesiwn, gan wneud yn siŵr eu bod nhw’n barod i fewngofnodi ar amser ar gyfer y sesiynau gwahanol. Rhennir Côd Dosbarth ar gyfer y sesiwn ar Classroom y pwnc.  Os, am unrhyw reswm, dyw’r dysgwr ddim yn gallu mynychu, dylent gysylltu â’u hathro trwy’r adran ‘Private Comments’ er mwyn rhoi gwybod.  Cymerir cofrestr ar gyfer bob sesiwn.

Er does dim angen i ddysgwyr gwisgo gwisg ysgol i’r sesiynau, dylent wisgo’n addas. Dylent feddwl amdano fel diwrnod gwisg anffurfiol yn yr ysgol.

Mae disgwyliadau ymddygiad yn union yr un fath ag o fewn yr ystafell ddosbarth.  Gallai ymddygiad annerbyniol arwain at ddysgwyr yn cael ei dynnu o’r sesiwn.

Dylai dysgwyr sicrhau eu bod nhw mewn lleoliad addas gyda chefndir addas ar gyfer yr ysgol. Os maent yn gallu gweithio mewn ardal cyhoeddus yn y cartref, er enghraifft yr ystafell fyw/ystafell fwyta, dylent ei drefnu felly.

Dylai dysgwyr fod yn barod ar gyfer bob sesiwn, gan sicrhau bod yr holl llyfrau, nodiadau, adnoddau ac offer angenrheidiol ganddynt.  Dylent hefyd sicrhau bod ganddynt ddigon o bŵer batri, gwifren pŵer, ayyb.

Dylai dysgwyr ymuno â phob sesiwn gyda’u camerâu a’u microffon wedi diffodd.

Unwaith mae presenoldeb wedi’i recordio bydd yr athro yn esbonio sut fydd y sesiwn yn rhedeg.  Gofynnir i ddysgwyr cyfrannu at y sesiwn mewn ffyrdd gwahanol, yn dibynnu ar gynnwys y sesiwn.  Efallai bydd angen i ddysgwr troi’r microffon ymlaen yn ystod y sesiwn.

**Darperir y sesiynau hyn ar gyfer dysgwyr penodol yn unig a ni ddylid eu rhannu na’u gwylio gan unrhywun tu hwnt i’r grŵp penodol o ddysgwyr Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.**

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd pob sesiwn yn cael ei recordio.